

JONES, THOMAS GWYNN (1871 - 1949), bardd ac un o lenorion mwyaf amlochrog Cymru, newyddiadurwr, cofiannydd, darlithiwr, ysgolhaig, athro, cyfieithydd

Enw: Thomas Gwynn Jones

Dyddiad geni: 1871

Dyddiad marw: 1949

Priod: Margaret Jane Jones (née Davies)

Plentyn: Eluned Jones (née Jones)

Rhiant: Jane Jones (née Roberts)

Rhiant: Isaac Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd ac un o lenorion mwyaf amlochrog Cymru, newyddiadurwr, cofiannydd, darlithiwr, ysgolhaig, athro, cyfieithydd

Maes gweithgaredd: Addysg; Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awduron: Arthur ap Gwynn, Francis Wynn Jones

Ganwyd yn y Gwyndy Uchaf, Betws yn Rhos, Sir Ddinbych, 10 Hydref 1871, yn blentyn hynaf Isaac Jones a Jane, ei wraig. Ffermwr oedd Isaac Jones; yr oedd hefyd yn bregethwr cynorthwyl gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac yn fardd a llenor. Thomas oedd unig enw bedydd T.G. J.; dechreuodd ychwanegu Gwynn (oddi wrth Gwyndy) tua 1890, pryd y galwai ef ei hun Gwyn(n)vre ap Iwan (weithiau ap Isac), ymysg ffugenwau eraill. Oddieithr addysg elfennol yn Llanellian, yr Hen Golwyn, a Dinbych, a pheth hyfforddiant mewn Lladin, Groeg, a mathemateg a gafodd gan gymydog o offeiriad ymddoeledig (gan amcanu cael ei dderbyn i Brifysgol Rhydychen, amcan a rwystrowd gan afiechyd), ei addysgu ei hun a wnaeth. Yn 1891 ymunodd â staff *Y Faner* dan **Thomas Gee**, ac mewn gwaith newyddiadurwl y bu hyd 1909. Ymadawodd â Dinbych yn 1893 i fynd ar staff *Y Cymro* yn Lerpwl, dan **Isaac Foulkes**. Yn 1895 dychwelodd i Ddinbych yn isolygydd ar *Y Faner* ac i gynorthwyo gyda phapur Saesneg, y *North Wales Times*, oedd newydd ei gychwyn gan **Gee**. Yn 1898 aeth i Gaernarfon ar *Yr Herald Cymraeg*, *Papur Pawb*, a'r *Carnarvon & Denbigh Herald*. Yn 1905 bu'n wael ei iechyd a bu am ysbaïd yn yr Aifft, lle y gwnaeth beth gwaith *freelance* yn Saesneg. Wedi dychwelyd yn 1906 bu'n byw yn Ninbych, yn ysgrifennu i bapurau newydd, yn bennaf i *Papur Pawb*. Yn 1907 aeth i'r Wyddgrug yn olygydd *Y Cymro*; oddi yno yn 1908 i Gaernarfon, lle y bu am gyfnod byr yn swyddfa'r *Herald* a *Papur Pawb* ac yna ymuno â staff *Y Genedl Gymreig*.

Yn 1909 penodwyd ef yn gatalogydd yn y Llyfrgell Genedlaethol; yn Aberystwyth a'r ardal y bu weddill ei oes. Yn 1913 penodwyd ef yn ddarlithydd mewn Cymraeg yng nghanol y Brifysgol, Aberystwyth; ac yn 1919 i Gadair Gregynog mewn llenyddiaeth Gymraeg - y cyntaf i'w llenwi ac mewn gwirionedd yr olaf hefyd - a llanwodd y gadair hyd ei ymdeoliad yn 1937.

Bu farw yn ei gartref yn Aberystwyth, 7 Mawrth 1949, yn 77 oed, a chladdwyd ef ym mynwent Heol Lanbadarn 10 Mawrth. Priododd Mehefin 1899 â Margaret Jane Davies, Dinbych. Cawsant ferch a dau fab.

Daeth yn gynnar iawn dan ddylanwad **Emrys ap Iwan** a'i symblydd i edrych ymhellach yn ôl na'r bedwaredd ganrif ar bymtheg am sylfeini llên Cymru. Cryfhaodd **Emrys** ynddo hefyd ei ddiddordeb mewn ieithoedd estron ac enynnodd ynddo'r awydd i edrych tu hwnt i Loegr am feysydd llenyddiaeth i'w hastudio. Cyn diwedd y ganrif daeth hefyd dan ddylanwad **Daniel Rees**. Dengys coffhad T.G. J. iddo yn *Cymeriadau*, 1933, beth o'r gyfathrach agos a'r cyd-ddylanwad a fu rhwng y ddau ŵr anghyffredin.

Cychwynnodd ei ddiddordeb yn yr ieithoedd Celtaidd eraill yn gynnar, efallai fel canlyniad i'w gydymdeimlad â'r Gwyddelod yn eu hymdrechion am ymreolaeth yn yr wythdegau. Dyfnhawyd ei ddiddordeb yn lwerddon yn arbennig drwy dri ymweliad â'r wlad, yn 1892, 1908, a 1913; ar y ddau olaf cyfarfu â nifer o ysgolheigion a llenorion a ddaeth yn gyfeillion agos iddo. Adlewyrchir hyn oll yn y llyfrau *Iwerddon* 1919, *Peth nas Lleddir* (1921), ac *Awen y Gwyddyl* (1922) a llawer o sgrifeniadau eraill.

Cymerodd radd M.A. ym Mhrifysgol Cymru yn 1914, gyda thraethawd *Bardism and Romance. Gwaith Tudur Aled*, ffrwyth cyfnod hir o astudiaeth a chodi testunau, *Cofiant Thomas Gee* (1913), *Cofiant Emrys ap Iwan* (1912), y Rhagdraith manwl i *Dwyfol Gân Dante* (1903, cyfieithiad **Daniel Rees** o'r *Divina Commedia*), *Llenyddiaeth y Cymry* (1915 - Cyf. 1, Hyd ymdrech y Tuduriaid, yn unig a gynhyrchwyd), *Traethodau* (1910), *Llenyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (1920), *Cultural Bases* (1921), a *Welsh Folklore and Folk-Custom* (1930) oedd ei brif weithiau ysgolheigaidd eraill.

Dechreuodd brydyddu tua chanol yr wythdegau, yn y mesurau caeth yn bennaf, a chyhoeddwyd llawer o'i gynhyrchion cyntaf, yr enillai arnynt yng nghyfarfodydd cystadleuol yr ardal, yn *Y Faner* a'r *Abergele Visitor*. Yn *Dyddiau'r Parch. Richard Owen*, 1891, llyfryn â thua'i hanner yn waith 'Gwynvre ap Iwan' a'r gweddill yn waith 'Gwilym Meredith' (y Parchedig W. M. Jones), y cyhoeddwyd ei waith ar wahân gyntaf. Ymddangosodd y ddychangerdd 'Gwlad y Gân' yn *Cymru* (y ddau ganiad cyntaf yn 1896 ac 1897) ac yn *Papur Pawb* (y tri chaniad yn 1898 ac 1899). Hon oedd ei gerdd sylweddol gyntaf: cyhoeddwyd hi gyntaf yn llyfr gyda gweithiau eraill dan y teitl *Gwlad y Gân a Chaniadau Eraill* (1902). Galwodd **W. J. Gruffydd** y gerdd yn 1949, yn *juvenilia* ac ar yr un pryd yn daranfollt yn ei heffaith arno. Yn 1902 hefyd enillodd ei awdl 'Ymadawiad Arthur' iddo gadair eisteddfod Genedlaethol Bangor, dan feirniadaeth **John Morris-Jones**. Dododd y gerdd ef ar unwaith ar ei ben ei hun ymysg beirdd byd newydd ar brydyddiaeth Gymraeg. Enillodd gadair yr eisteddfod Genedlaethol drachefn yn 1909, gyda'r awdl 'Gwlad y Bryniau'. Cyhoeddwyd awdl Bangor yn llyfr yn 1910, *Ymadawiad Arthur a Chaniadau Eraill*; ni chyhoeddwyd 'Gwlad y Bryniau' ar wahân hyd 1926, pan ddaeth y ddwy awdl at ei gilydd yn *Detholiad o Ganiadau* o Wasg Gregynog. Yn hon yr oedd hefyd nifer o gerddi adnabyddus eraill hen a newydd, e.e., *Tir na nÓg* (arg. cyntaf 1916), 'Madog' (1918, yn y *Beirniad*), 'Broséliewnd' (1922), 'Anatiomaros' (1925), 'Gwlad Hud' 1919-25). Casglwyd y prif weithiau, yn brydyddiaeth a rhyddiaith, mewn chwe chyfrol gan Hughes a'i Fab, Wrecsam, rhwng 1932 a 1937. Cynwysai *Caniadau* (1934, y drydedd o'r chwech) fwy neu lai yr un gweithiau a chyfrol Gregynog yn 1926 ond ag 'Argoed' (1927) wedi'i hychwanegu; a chynwysai *Manion* (1932, y gyntaf) ddetholiad y bardd ei hun o weddill ei brydyddiaeth. Ni pheidiodd â phrydyddu, er hynny: dan yr enw 'Rhufawn' cyhoeddodd yn *Yr Efrdydd* yn 1935-36 nifer o gerddi gan gynnwys cerdd, 'Cynddillog,' a gyfrifir gan rai beirniaid yn gystal gwaith, efallai, â dim a gynhyrchoedd erioed. Daeth y cerddi hyn allan yn llyfr yn 1944 dan y teitl *Y Dwymyn*.

Mae'r lliaws mawr o'i gyfieithiadau yn cyfuno'i ddoniau ysgolheigaidd a'i athrylith fel bardd. *Macbeth* Shakespeare (*Papur Pawb*, 1902, yn llyfr 1942), *Dychweledigion* (*Die Gjengångere* Ibsen, 1920), a'r enwocaf oll, *Faust* Goethe (1922) yw'r prif rai, ymysg nifer helaeth o drosiadau nodedig eraill o brif ieithoedd Ewrop. Ei gyfieithiad pennaf o'r Gymraeg i Saesneg oedd ei drosiad o *Gweledigaethau y Bardd Cwsc* (Gwasg Gregynog 1940).

At hyn oll, cyhoeddodd nofelau, 'dramâu, llyfr taith (*Y Môr Canoldir a'r Aifft*, 1913), llyfryn o atgofion (*Brithgofion*, 1944), dau lyfr cerddi plant (*Llyfr Gwion Bach*, 1924, *Llyfr Nia Fach*, 1932) ac amrywiaeth o weithiau eraill. Dros gyfnod hir cyfansoddodd eiriau ar gyfer cerddoriaeth a chyfieithodd lawer o gerddi at yr un perwyl. Bu'n feirniad ar y prif gystadleuthau yn yr eisteddfod genedlaethol o 1908 ymlaen a rhoddodd ei wasanaeth yn ddibrin i eisteddfodau eraill a chymdeithasau drwy'r wlad fel beirniad a darlithydd. Fel athro bu ei ddylanwad yn fawr ar genedlaethau o fyfyrwyr. Pan ymddeolodd o'i swydd yn 1937 cafodd radd D. Litt. honoris causa gan y ddwy brifysgol agosaf at ei galon - Prifysgol Cymru a Phrifysgol Iwerddon. Gwnaed ef hefyd yn C.B.E. yr un flwyddyn.

Cyhoeddodd *Y Llenor* rifyn coffa iddo yn 1949 (Cyf. 28, Rhif 2), yn cynnwys ysgrifau gan ei brif gyfeillion. Y mae llyfryddiaeth weddol gyflawn hyd 1937 yn Owen Williams, *A Bibliography of Thomas Gwynn Jones*, 1938; ychwanegodd David Thomas dros 260 o gyhoeddiadau hyd 1937 yn *Atodiad i 'A Bibliography of T.G.J.'*, 1956.

Awduron

Arthur ap Gwynn

Francis Wynn Jones, (1898 - 1970)

Ffynonellau

Gwybodaeth bersonol a'r ffynonellau grybwyllir uchod

David Jenkins, *Thomas Gwynn Jones Cofiant gan David Jenkins* (Dinbych 1973)

W. Beynon Davies, *Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd 1970)

D. Hywel E. Roberts, *Llyfryddiaeth Thomas Gwynn Jones* (Caerdydd 1981), 219-78

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: T. Gwynn Jones

Delweddau

LIGC: John Williams (Y Foel), T. Gwyn Jones, Robert Griffiths [and] J. J. Evans

LIGC: T. Gwynn Jones ar y cei yn Caernarfon

LIGC: T. Gwynn Jones prif westai pabell awen "Y Cymro", Dinbych, 1939

LIGC: Y meistr -- T. Gwynn Jones yn Eisteddfod Bae Colwyn

LIGC: Thomas Gwynn Jones ganed ym Metws-yn-Rhos, Sir Ddinbych, 1871, bu farw yn Aberystwyth, 1949

Howard Lloyd Roberts, Professor T. Gwynn Jones

LIGC: T. Gwynn Jones and others, Shizeh Pyramids, Egypt

LIGC: Mrs. Jane Jones

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: NLW MS 24174E: Llythyrau T. Gwynn Jones at R. S. Rowlands

VIAF: 8291651

Wikidata: Q7668277

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA



Gwynn, A. & Jones, F. W., (1970). JONES, THOMAS GWYNN (1871 - 1949), bardd ac un o lenorion mwyaf amlochrog Cymru, newyddiadurwr, cofiannydd, darlithiwr, ysgolhaig, athro, cyfieithydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-JONE-GWY-1871>

CC BY-SA

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government